



# Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog

## Rhagymadrodd

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i ganfod datrysiadau rheoli perygl llifogydd hirdymor ar gyfer cymuned Porthmadog a Thremadog, ochr yn ochr â chyflwyno cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.**

Trwy gydol 2022, rydym wedi bod yn buddsoddi yn ein model llifogydd i ddeall yn well y perygl o lifogydd yn yr ardal astudio. Gan ddefnyddio'r canllawiau diweddaraf, cofnodion llif afon sydd ar gael a ffotograffau a dynnwyd yn ystod digwydd 2015, gallwn ragfynegi perygl llifogydd yn awr, ac yn y dyfodol gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Dengys y model nifer cynyddol o gartrefi a busnesau mewn perygl o Afon Glaslyn, Y Cyt ac o'r môr. Mae hyn o bryder i ni gyd, a dyna pam y mae CNC yn canolbwyntio ar ganfod datrysiadau cynaliadwy i reoli'r perygl.

Yn 2023, rydym yn awyddus i drafod y canfyddiadau o'n model llifogydd ac asesu rhestr hir o opsiynau i ostwng perygl llifogydd. Byddwn yn mireinio'r opsiynau hyn i Restr Fer ac yna Opsiwn a Ffefrir, a fydd wedyn yn ffurfio'r Achos Busnes ar gyfer ariannu a chyflwyno.



**Llifogydd ym Mhorthmadog yn ystod Storom Desmond 2015**  
Credyd: NPAS (Gwasanaeth Cenedlaethol Awyr Heddlu)

Mae Porthmadog mewn perygl o lifogydd o'r ddwy afon a'r môr ynghyd â glaw a dŵr daear. Yn ystod penllanw, ni all yr afonydd lifo allan i'r môr ac felly mae cyfuniad o lawiad eithafol a phenllanwau yn rhoi llawer o eiddo preswyl a masnachol mewn perygl o lifogydd. Disgwylir i hyn waethygu gyda newid yn yr hinsawdd.

Wrth i'r hinsawdd newid, byddwn yn wynebu mwy o stormydd, glawiad trwm a lefelau môr yn codi. Yn sgil hyn bydd digwyddiadau llifogydd difrifol yn dod yn amlach. Bydd hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar yr amddiffynfeydd llifogydd cyfredol yn y dref a bydd yn effeithio ar sut y byddan nhw'n perfformio.

**Rydym yma i wrando ar eich adborth ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych**

**Dewch i gael sgwrs gyda'r tîm!**